

# RHEOLI PERLLANNAU

## ADRODDIAD CALU AR WEITHDY FFERM

Hydref 2010



### Rhagarweiniad

Ar 12 Hydref 2010 cynhaliodd CALU weithdy Cyswilt Ffermio yn Tynyrhelyg, Llanrhystud ar destun Rheoli Perllannau. Mae'r daflen hon yn crynhoi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ystod y diwrnod.

Tyddyn o 10ha yw Tynyrhelyg 130m uwchben lefel y môr a thua 4km i'r tir o Fae Ceredigion. Mae yna ddwy berllan fach, pob un yn cynnwys amrywiaeth eang o wahanol fathau o afalau.

Arweiniwyd y gweithdy gan Chris Creed a David Frost o ADAS. Mae gan y ddau brofiad helaeth o reoli perllannau, trwy weithio gyda chynhyrchwyr masnachol ym Mhrydain a thrwy eu cynnyrch domestig eu hunain.



Dechreuodd y diwrnod gyda sesiwn theori yn egluro'r egwyddorion cyntaf ar sut i fynd ati i dyfu coed afalau a sefydlu perllan.

Eglurodd Chris Creed bod angen i goed afalau dyfu yn yr haul, sy'n golygu bod arnynt angen o leiaf chwe awr o oleuni bob dydd. Mae'n argymhell hyd yn oed gyda choed gwreiddgyff bychain y dylid eu plannu o leiaf 8 troedfedd (2.5m) ar wahân. Mae'n hanfodol bod gan y coed ddraeniad da hefyd. Er y gall coed afal oddef amrywiaeth o fathau pridd, mae'n well ganddynt lôm tywodlyd i lôm tywodlyd cleiog gyda pH o tua 6.5.

Tyfir bron y cyfan o goed afalau fel impiadau ar wreiddgyff masnachol. Mae'r dewis o wreiddgyff yn rheoli egni'r goeden. Y ffordd hawsaf o ddechrau tyfu afalau yw prynu naill ai coed gwraidd noeth neu rai wedi eu tyfu mewn potiau gan dyfwr dibynadwy rhwng Tachwedd a Mawrth.

Yn ogystal â maint, blas a lliw'r ffrwyth, gall tyfwyr proffesiynol argymhell coed sy'n gallu gwrthsefyll oerni ac afiechydon ac sydd fwyaf addas i'ch ardal. Wrth brynu cyltifarau sy'n gallu gwrthsefyll afiechydon arbedir llawer o amser a chost wrth gynnal a chadw coed afalau. Mae gwreiddgyff bychain a lled-fychain yn rhoi ffrwyth o'r un maint â choed maint arferol fel rheol a, drwodd a thro, maent yn haws eu rheoli.

### Afiechydon Cyffredin

Rhoddyd arolwg byr o'r afiechydon mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar goed afalau:

Mae **cancr** yn effeithio ar y rhan fwyaf o goed ffrwythau, yn arbennig afalau a gellyg. Fe'i hachosir gan sborau ffwngaid sy'n cael eu cario ar y gwynt a mynd i mewn i agoriadau naturiol neu anafiadau a achoswyd gan ddail yn syrthio a thocio. Bydd anafiadau wedi suddo yn ymddangos ar frigau neu ar y prif goesynnau, gyda rhisgl wedi cracio neu fel corcyn o'u cwmpas. Os bydd y rhain yn amgylchynu'r coesyn, bydd y brigyn yn marw.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig; Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing in  
Rural Areas



Centre for Alternative Land Use  
Canolfan Ddefnydd I'r Amgen



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Y driniaeth yw torri'r holl frigau yr effeithiwyd arnynt a'u llosgi. Gyda manau bychain sydd wedi'u heintio ar frigau mwy, gellir crafu'r pren a effeithiwyd i ffrwdd gyda chyllell finiog, gan gael gwared ar yr holl sglodion. Dylid rhoi paent lladd ffwng ar yr anafiadau. Mae cancr yn fwy tebygol mewn priddoedd trwm lle mae draeniad gwael. Peidiwch â gadael i frigau rwbio yn erbyn ei gilydd – mae'r ffwng yn mynd i risgl sydd wedi'i niweidio. Y driniaeth arferol yw chwistrellu gyda ffwng-laddwr systemig, ond dylid gofyn am gyngor proffesiynol cyn defnyddio unrhyw gemegau.

Afiechyd sy'n effeithio ar goed afalau a gellyg yw'r **crach**. Gall effeithio ar y dail, lle gwelir darnau tywyll, crwn ac mae craciau a phothelli'n ymddangos ar y ffrwythau. Fodd bynnag, dim ond dyfnder croen yw'r rhain fel rheol a gellir bwyta'r ffrwyth ar ôl ei blicio. Mae rhai mathau, Cox's Orange Pippin yn arbennig, yn fwy tueddol i ddiodef o'r crach nag eraill. Y dull trin a ddefnyddir mewn perllannau masnachol yw chwistrell lladd-ffwng systemig, a ddefnyddir pob pythefnos o'r adeg y mae'r blagur yn agor i'r adeg y mae'r blodau'n syrthio.



Manbantau chwerw

Mae **manbantau chwerw** (*bitter pit*) yn achosi smotiau ar grwyn y ffrwythau. O dan y rhain mae'r cnawd yn frown a chwerw. Achosir hyn gan brinder calsiwm: hyd yn oed os yw'n ymddangos bod digon o galsiwm yn y pridd, mae rhai coed yn neilltuol wael am symud y calsiwm i'r ffrwyth. Y driniaeth yw chwistrellu hylif calsiwm ar y dail.

Ar ôl y drafodaeth fer dan do, arweiniwyd taith o amgylch y ddwy berllan gan Chris a David. Y mathau yr edrychwyd arnynt oedd:

Math	Sylw
<b>Perllan 1</b>	
Claygate Pearmain	Ar y goeden hon gwelwyd bod y ffrwyth angen eu teneuo gan fod y goeden mewn perygl o ffrwytho ddwywaith y flwyddyn.
Laxton Superb	Roedd ar y goeden hon angen ei thocio, roedd yna 3 Laxtons i gyd, fe wnaethom drafod impio math arall arnynt.
Egremont Russet	Disgrifiodd Chris y dull presennol o reoli'r goeden hon fel tocio amaturaidd.
Red Falstaff	Wedi ei phlannu eleni, fe wnaeth Chris ei thocio drwy leihau'r prif goesyn.
Greensleeves	Mae arwyddion bod y cyflwr a elwir manbantau chwerw ( <i>bitter pit</i> ) ar y ffrwyth.

### Perllan 2

Bramley Seedling
Golden Noble
Laxton Superb
Charles Ross
Howgate Wonder



Howgate Wonder

## Tocio

Cafodd tocio ei drafod yn fyr. Bydd gweithdy CALU yn y dyfodol yn ymdrin â hyn yn fanylach.

Dylai coed afalau gael eu tocio yn y gaeaf fel rheol. Bydd hyn yn annog y goeden i dyfu mwy yn ystod y tymor tyfu. Dylai'r lefel gyntaf o frigau ddechrau rhwng 60cm – 90cm uwchben y ddaear. Dylai'r brigau sy'n tyfu i'r ochr o'r prif goesyn naill ai gael eu dal i lawr â phwysau neu eu clymu'n weddol rhydd gyda llinyn er mwyn annog y brigau i dyfu at allan yn hytrach nag yn syth i fyny.

Bydd tocio coed afalau yn ystod yr haf yn llesteirio twf a dylid gwneud hyn unwaith y bydd y coed wedi cyrraedd y maint rydych ei eisiau.

Mae teneuo'r ffrwyth yn bwysig hefyd. Mae'r ffrwyth a dyfir gan y goeden yn aml yn rhy drwm ar gyfer y brigau. Pan ddigwydd hyn, gall y brigau dorri i ffwrdd. Dylid tynnu afalau nes bod tua pedair i chwe modfedd rhyngddynt. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar y gangen, yn ogystal â chynyddu'r siawns o gael cnwd llawn y flwyddyn wedyn (mae cynhyrchu cnwd rhy drwm yn tueddu i wneud i goed ffrwythau ffrwytho bob yn ail blwyddyn).

## Gwneud seidr a sudd

Mae proses gychwynnol gwneud sudd o afalau yr un fath ar gyfer seidr a sudd afal.

Yn gyntaf mae'r afalau'n cael eu malu'n fân. Yna maent yn cael eu gwasgu i dynnu'r sudd ohonynt. Yn ystod y cam yma o'r broses, mae seidr a sudd afal yr un fath. Wrth wneud sudd afal, bydd hwn yn awr yn cael ei basteureiddio, tra gadewir seidr i eplesu. Fel rheol mae'r eplesu'n digwydd mewn casgenni gwirod gan barhau nes mae'r eplesu'n gorffen. Mae hyn yn rhoi seidr traddodiadol. Bydd y burum gwyllt ar y ffrwyth yn eplesu'n naturiol, nid oes angen ychwanegu dim.

Mae sudd afal yn ymddangos yn frown oherwydd ocsideiddio; ychwanegir asid asgorbig (fitamin C) i'w wneud yn gliriach.



Afalau wedi eu malu'n fân yn barod i'w gwasgu



Gwasgu'r afalau



Sudd afal cartref wedi'i botelu



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig; Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government